

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arfarniad o gynaliadwyedd: Datganiad Ôl-fabwysiadu

## Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2019




Llywodraeth Cymru

# Arfarniad o gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Datganiad Ôl-fabwysiadu







Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited – Hydref 2019

## Adroddiad ar gyfer

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Prif gyfranwyr


Katharine Mason
Alex Melling
Pete Davis

## Cyhoeddwyd gan



................................................................................
Alex Melling

## Cymeradwywyd gan



................................................................................
Pete Davis

## Wood

Cyf. y Ddogfen. 35445 rbri04ir

h:\projects\35445 wales marine spatial plan\assessment\sa report\pas\wnmp post adoption statement (final) 21.10.19.docx

## Hysbysiad hawlfraint a pheidio â datgelu

Mae cynnwys a chynllun yr adroddiad hwn yn destun hawlfraint sy'n eiddo i Wood (© Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited 2019) ac eithrio i'r graddau y mae hawlfraint wedi'i neilltuo'n gyfreithiol gennym i barti arall neu'n cael ei defnyddio gan Wood o dan drwydded. I'r graddau yr ydym yn berchen ar yr hawlfraint yn yr adroddiad hwn, ni ellir ei chopïo na'i defnyddio heb ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r fethodoleg (os oes un) sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn cael ei rhoi i chi yn gyfrinachol ac ni ellir ei datgelu na'i chopïo i drydydd partïon heb gytundeb ysgrifenedig Wood ymlaen llaw. Gallai datgelu'r wybodaeth hon fod yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd cyfreithadwy neu fod yn anfanteisiol i'n buddiannau masnachol fel arall. Bydd unrhyw drydydd parti sy'n cael mynediad i'r adroddiad hwn drwy unrhyw ddull, pa un bynnag, yn destun yr Ymwadiad Trydydd Parti a nodir isod.

## Ymwadiad trydydd parti

Mae unrhyw ddatgeliad o'r adroddiad hwn i drydydd parti yn amodol i'r ymwadiad hwn. Paratowyd yr adroddiad gan Wood yn ôl cyfarwyddyd, ac i'w ddefnyddio gan, ein cleient a enwir ar flaen yr adroddiad. Nid yw'n gyfystyr â chyngor i unrhyw drydydd parti sy'n gallu cael mynediad iddo ym mha fodd bynnag. Mae Wood yn eithrio, i'r graddau llawnaf a ganiateir yn gyfreithiol, unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sut bynnag y mae'n deillio o ddibynnu ar gynnwys yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn eithrio ein hatebolrwydd (os o gwbl) am anaf personol neu farwolaeth sy'n deillio o'n hesgeulustod, am dwyll neu am unrhyw fater arall na allwn eithrio atebolrwydd amdano yn gyfreithiol.

## Systemau rheoli

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited mewn cydymffurfiaeth lawn â'n systemau rheoli, sydd wedi'u hardystio i safon ISO 9001, ISO 14001 a OHSAS 18001 gan LRQA.

## Diwygiadau i'r ddogfen

| Rhif | Manylion | Dyddiad |
|---|---|---|
| **1** | Drafft | Awst 2019 |
| **2** | Terfynol | Tachwedd 2019 |

# Cynnwys


Rhagair 1

1. Cyflwyniad 3
   - 1.1 Trosolwg 3
   - 1.2 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 3
     - Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 3
     - Fersiwn Derfynol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 5
   - 1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 6
   - 1.4 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 7
   - 1.5 Diben yr adroddiad hwn 8

2. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru 10
   - 2.1 Ystyriaethau amgylcheddol yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru 10
   - 2.2 Ystyriaethau amgylcheddol trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd 10
     - Ystyriaethau amgylcheddol o fewn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 10
     - Ystyriaethau amgylcheddol trwy broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 12

3. Sut mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ystyried 15
   - 3.1 Cyflwyniad 15
   - 3.2 Sut mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ystyried wrth ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 15

4. Sut mae safbwyntiau a fynegwyd ar yr ymgynghoriad wedi'u hystyried 20
   - 4.1 Cyflwyniad 20
   - 4.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru 20
   - 4.3 Ymgynghoriad ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 25
     - Ymgynghoriad cychwynnol 25
     - Ymgynghoriad cyhoeddus ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 25

5. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Morol Cenedlaethol fel y'i cyhoeddwyd, o ystyried y dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy 28
   - 5.1 Cyflwyniad 28

6. Y mesurau y penderfynwyd yn eu cylch yn ymwneud â monitro 31
   - 6.1 Cyflwyniad 31
   - 6.2 Monitro ac adrodd ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru 31

Tabl 2.1 – Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 11
Tabl 4.1 – Crynodeb o sylwadau'r ymgynghoriad 21

Atodiad A – Cydymffurfio â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol 34


Y llun ar y clawr gan Visit Wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG39364 ISBN digidol 978-1-83933-640-9

# Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr Cymru yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009[1].

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cynllun morol cyntaf ar gyfer Cymru ac mae'n dechrau'r broses o lunio dyfodol ar gyfer moroedd Cymru trwy gynllunio morol er mwyn cefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd yn gweithredu Datganiad Polisi Morol y DU ar lefel genedlaethol, gan lywio datblygiad cynaliadwy moroedd Cymru trwy nodi sut y dylai ymgeiswyr lunio ceisiadau am drwyddedau a sut y caiff cynigion eu hystyried gan wneuthurwyr penderfyniadau gan gynnwys, yn benodol, yr awdurdodau cydsynio. Hefyd, bydd yn llywio penderfyniadau eraill sydd â'r potensial i effeithio ar ardal y cynllun.

Yn unol â gofynion Atodlen 6 (Rhan 10) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, cwblhaodd Llywodraeth Cymru Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn asesu effeithiau tebygol polisïau arfaethedig y fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a helpu i sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Wrth fodloni’r gofyniad i gwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys asesiad yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol[2] a’r rheoliadau trosi[3] (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol). Proses asesu yw’r Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau trwy nodi, nodweddu a gwerthuso effeithiau arwyddocaol tebygol cynllun neu raglen ar yr amgylchedd a phenderfynu sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau andwyol neu wella unrhyw effeithiau manteisiol.

Mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu wedi'i gwblhau er mwyn bodloni gofynion Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a rheoliad 16 (4) o'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n cael ei gyhoeddi ar y cyd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

1 Llywodraeth EM (2009) *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*. Ar gael o **www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/pdfs/ukpga_20090023_en.pdf** [Fel ar Mehefin 2019].

2 Cyfarwyddeb yr UE (2001) 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd.

3 Llywodraeth EM (2004) *The Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004 (OS1633).*



# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg

1.1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth môr mawr Cymru yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009[4].

1.1.2 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cynllun morol cyntaf ar gyfer Cymru ac mae'n dechrau'r broses o lunio dyfodol ar gyfer moroedd Cymru trwy gynllunio morol er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy ar ffurf amcanion a pholisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol penodol. Bydd yn gweithredu Datganiad Polisi Morol y DU[5] ar lefel genedlaethol, gan lywio datblygiad cynaliadwy moroedd Cymru trwy nodi sut y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried cynigion. Bydd y cynllun a'r deunydd ategol yn cael eu defnyddio gan ymgeiswyr i lunio cynigion a cheisiadau am drwyddedau, gan awdurdodau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a gan ddefnyddwyr eraill i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ardal y cynllun mewn ffordd gynaliadwy. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

1.1.3 Fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 6 (Rhan 10) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn asesu effeithiau tebygol y polisïau sy'n dod i'r amlwg yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru a helpu i fanteisio ar gyfraniad y cynllun tuag at ddatblygu cynaliadwy. Wrth fodloni ei gofyniad i gwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys asesiad yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol[6] a'r rheoliadau trosi[7] (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol).

1.1.4 Mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu wedi'i gwblhau er mwyn bodloni gofynion Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a rheoliad 16 (4) o'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n cael ei gyhoeddi ar y cyd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

1.1.5 Mae copïau o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r dogfennau cysylltiedig ar gael yn:

- **llyw.cymru/cynllunio-morol** (Cymraeg)
- **gov.wales/marine-planning** (Saesneg).

1.1.6 Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, dylai cyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE yn yr adroddiad hwn gael eu darllen fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth ddomestig a oedd yn rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith (gan gynnwys y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n cael ei hadolygu neu ei disodli o dro i dro).

## 1.2 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

### Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

1.2.1 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae wedi cynnwys nifer o gamau sy'n cwmpasu casglu tystiolaeth, datblygu polisi, trefniadau ar gyfer gweithredu ac adolygu'r cynllun, wedi'u hategu gan ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a phroses ailadroddol o asesu'r effaith.

1.2.2 Fel rhan o'r broses hon o ddatblygu'r cynllun, paratôdd Llywodraeth Cymru Ymarferiad Cwmpasu Strategol drafft[8] a oedd yn cyflwyno gwybodaeth am gyflwr amgylchedd morol Cymru a'r cyd-destun

4 Llywodraeth EM (2009) *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*. **www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/pdfs/ukpga_20090023_en.pdf**

5 Llywodraeth EM (2011) *Datganiad Polisi Morol y DU*. Ar gael o **www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69322/pb3654-marine-policy-statement-110316.pdf**

6 Cyfarwyddeb yr UE (2001) 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd.

7 Llywodraeth EM (2004) *The Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004 (OS 1633)*.

8 **llyw.cymru/ymarfer-cwmpasu-strategol-ar-gyfer-y-cynllun-morol-cenedlaethol?_ga**

polisi perthnasol. Hefyd, roedd yn darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau yn ymwneud â chwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd yr ymatebion yn llunio'r Ymarferiad Cwmpasu Strategol diwygiedig sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru[9].

1.2.3 Roedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Drafft Cychwynnol[10] ar gael ar gyfer sylwadau rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Mae'r ymarferiad hwn cyn yr ymgynghoriad, yr ymatebion a dderbyniwyd a'r prosesau asesu ac arfarnu parhaus wedi helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

1.2.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru[11] ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a ffurfiol dros gyfnod o 16 wythnos rhwng 7 Rhagfyr 2017 a 29 Mawrth 2018. Roedd fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- **Gweledigaeth:** datganiad cyffredinol o nodweddion ardal forol Cymru ar adeg benodol yn y dyfodol.
- **Amcanion y cynllun:** datganiad o ganlyniadau dymunol neu'r newidiadau mewn ymddygiad gweladwy y mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ceisio eu sicrhau er mwyn gwireddu'r weledigaeth.
- **Amcanion y sector:** amcanion sy'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun ac sy'n ddatganiadau o ganlyniadau dymunol ar gyfer y sector.
- **Polisïau trawsbynciol cyffredinol:** polisïau cyffredinol y cynllun sy'n berthnasol i bob sector a gweithgaredd (er bod y graddau y mae angen eu hystyried yn dibynnu ar raddfa ac effaith debygol y cynnig) ac sy'n helpu i gyflawni amcanion y cynllun.
- **Polisïau sector:** polisïau sy'n benodol i'r sector sy'n berthnasol i benderfyniadau yn ymwneud â gweithgaredd penodol (ac sy'n gweithredu ar y cyd â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol). Maent yn cynnwys polisïau ategol (i gefnogi'r broses o ddatblygu sector penodol) a pholisïau diogelu (i ddiogelu gweithgareddau ar hyn o bryd neu yn y dyfodol rhag effeithiau negyddol gweithgareddau eraill).

1.2.5 Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[12].

1.2.6 Gan ystyried y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, canfyddiadau'r asesiadau cysylltiedig gan gynnwys yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, proses ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a gwaith manwl arall mewn perthynas â morlynnoedd llanw, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddiwygio fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Roedd y newidiadau i fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys:

- **Newidiadau strwythurol:** er enghraifft, lleihau hyd a chymhlethdod y cynllun trwy ailstrwythuro fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a dileu/trosglwyddo rhywfaint o'r deunydd i ddogfennau eraill megis Canllawiau Gweithredu (ac efallai Hysbysiadau Cynllunio Morol arfaethedig, a fydd yn cael eu cynhyrchu yn y dyfodol).
- **Diwygiadau polisi:** er enghraifft, diwygiadau i bolisïau fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gan gynnwys cyfuno polisïau, newidiadau i eiriad polisïau, dileu polisïau a chynnwys polisïau ychwanegol.

9 Llywodraeth *Cymru et al* (2015) *Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru*. Ar gael o **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/adroddiad-ar-dystiolaeth-morol-cymru-crynodeb.pdf**

10 Llywodraeth Cymru (2015) *Fersiwn Ddrafft Cyn Ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru*.

11 Llywodraeth Cymru (2017) *Fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru*. Ar gael yn **llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/consultation-doc-cy.pdf**

12 Llywodraeth Cymru (2018) *Fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion* **llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft-crynodeb-o-ymatebion.pdf**

- **Dileu Ardaloedd Adnoddau Strategol:** dileu Ardaloedd Adnoddau Strategol[13] o'r cynllun a gohirio eu hystyriaeth yn y dyfodol o dan Hysbysiadau Cynllunio Morol unigol, a chanolbwyntio rôl Ardaloedd Adnoddau Strategol ar ddiogelu defnydd posibl o adnoddau yn y dyfodol, yn hytrach na chefnogi gweithgarwch newydd.
- **Diwygiadau ategol i'r testun:** er enghraifft, diwygiadau i adrannau rhagarweiniol y cynllun a diwygiadau i'r naratif polisi.

1.2.7 Canlyniad y broses adolygu hon oedd fersiwn ddrafft Diwygiedig Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sef y cynllun i'w fabwysiadu. Adolygwyd fersiwn ddrafft Diwygiedig Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru, cyn cael ei roi i Lywodraeth y DU. Ar ôl cwblhau'r gwelliannau terfynol, cafodd ei gyflwyno i'r Gweinidog i'w gymeradwyo fel fersiwn Derfynol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

## Fersiwn Derfynol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

1.2.8 Mae Fersiwn Derfynol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y penodau canlynol:

- **Cyflwyniad:** sy'n nodi cwmpas y cynllun, y weledigaeth ac 13 amcan y cynllun, y cyd-destun polisi ar gyfer y cynllun, canllawiau ar ddefnyddio'r cynllun a throsolwg o'r polisïau a'r dull gweithredu yn ymwneud ag Ardaloedd Adnoddau ac Ardaloedd Adfywio Strategol.
- **Polisïau trawsbynciol cyffredinol:** sy'n cynnwys:
  - Dau bolisi cyffredinol sy'n cynrychioli cymorth y system cynllunio morol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn yr ardal forol (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) trwy wneud penderfyniadau cymesur sy'n seiliedig ar risg;
  - Dau bolisi economaidd sy'n amlinellu sut mae'r cynllun yn cefnogi economi forol sy'n tyfu trwy bolisïau sy'n llywio penderfyniadau mewn perthynas â thwf economaidd cynaliadwy a chydfodolaeth;
  - Un ar ddeg o bolisïau cymdeithasol sydd â'r nod o gyfrannu at gymdeithas gref, iach a chyfiawn sy'n cynnwys mynediad, llesiant, achosion o lygredd, hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth, newid i'r arfordir a newid yn yr hinsawdd;
  - Saith polisi amgylcheddol sy'n cwmpasu amrywiaeth o faterion gan gynnwys diogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth morol a rheoli materion a allai effeithio ar yr amgylchedd morol (gan gynnwys rhywogaethau estron goresgynnol, sbwriel môr, sŵn tanddwr, ansawdd yr aer a'r dŵr);
  - Dau bolisi sy'n hyrwyddo llywodraethu da ar gyfer penderfynwyr, ymgeiswyr ac awdurdodau lleol, yn ymwneud â thrin effeithiau cronnol a chydnawsedd thrawsffiniol ac â'r cynllun;
  - 1 polisi yn ymwneud â defnyddio tystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau.
- **Polisïau sector:** sy'n cynnwys y 12 amcan y sector, polisïau diogelu a pholisïau ategol ar gyfer agregau, dyframaethu, carthu a gwaredu, ynni, pysgodfeydd, porthladdoedd a llongau, ceblau o dan y môr a thwristiaeth a hamdden.
- **Atodiad 1:** sy'n cynnwys cyfeiriadau i'r gofynion polisi a rheoleiddio eraill sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

## Rhychwant tiriogaethol

1.2.9 Mae ardal cynllun morol Cymru yn cynnwys tua 32,000 km$^2$ o'r môr a 2,120 km o forlin. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys rhanbarth glannau Cymru (o gymedr penllanw'r gorllanw i 12 milltir forol o'r lan) a rhanbarth môr mawr Cymru

13 Er mwyn dyrannu lle mewn ffordd ddangosol a darparu ffocws ar gyfer defnydd yn y dyfodol, roedd y fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer sectorau penodol. Nodwyd y rhain fel ardaloedd lle mae cyfle da i'w defnyddio gan sector penodol yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun a thu hwnt.

(y tu hwnt i'r ffin 12 milltir forol) mewn un ddogfen. Oni nodir yn wahanol, mae'r polisïau'n berthnasol i'r ddau ranbarth. Mae ardal y Cynllun yn ffinio â dau ranbarth cynllunio morol yn Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a De-orllewin Lloegr. Mae'r Cynllun yn rhannu ffin hefyd â Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon.

### Cwmpas swyddogaethol

1.2.10 Mae'r cyfrifoldeb am reoli gweithgareddau yn nyfroedd Cymru'n cael ei rannu rhwng swyddogaethau datganoledig Gweinidogion Cymru a'r swyddogaethau sydd wedi'u cadw gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau sydd wedi'u cadw, ac fe'i mabwysiadwyd gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

1.2.11 Mae'n bosibl y bydd y cydbwysedd rhwng swyddogaethau sydd wedi'u cadw a swyddogaethau swydd wedi'u datganoli yn newid gydag amser.

### Hyd ac adolygiad

1.2.12 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd ond cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd angen cynllunio ar gyfer rhai gweithgareddau wedi'r cyfnod hwn a bod eraill yn debygol o newid yn sylweddol yn ystod oes y Cynllun hwn.

1.2.13 Mae monitro ac adrodd yn ofyniad statudol (MCAA a. 61) ac yn gam pwysig o'r broses gynllunio er mwyn sicrhau bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'i bolisïau yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni amcanion y cynllun. Bob tair blynedd, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn adrodd ar effeithiau polisïau'r cynllun hwn a'u heffeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y cynllun. Mae'r broses gynllunio yn ailadroddol; yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, bydd cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio'r profiad a'r ddealltwriaeth a enillwyd o brosesau cynllunio blaenorol.

## 1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

1.3.1 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn fath o asesiad sy'n ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynllun neu raglen yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. Mae'r gofyniad i gwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau morol wedi'i nodi yn Atodlen 6 (Rhan 10) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n nodi:

> *"(1) A marine plan authority preparing a marine plan must carry out an appraisal of the sustainability of its proposals for inclusion in the plan.*
>
> *(2) The authority may proceed with those proposals only if it considers that the results of the appraisal indicate that it is appropriate to do so.*
>
> *(3) The marine plan authority must publish a report of the results of the appraisal.*
>
> *(4) The report is to be published when the marine plan authority publishes the consultation."*

1.3.2 Wrth fodloni ei gofyniad i gwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys asesiad yn unol â gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni Penodol ar yr Amgylchedd[14], a adwaenir yn fwy cyffredin fel y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Troswyd hyn i Reoliadau'r DU fel Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o

14 Ar gael o **ec.europa.eu/environment/eia/sea-legalcontext.htm**

Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (OS 2004 Rhif 1633), y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol[15].

1.3.3 Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ceisio sicrhau lefel uchel o warchodaeth amgylcheddol gan hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'n berthnasol i rai cynlluniau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i ystyried yn gynllun at ddiben y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol, ac mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol yn yr un modd ag y mae'n ofynnol i asesu effeithiau amgylcheddol gan y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae'r adroddiad a ddeilliodd o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd tebygol y Cynllun drafft ac mae wedi gwerthuso effeithiau dewis amgen rhesymol i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Lle mae effeithiau andwyol arwyddocaol posibl wedi'u nodi, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi argymell opsiynau ar gyfer osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o'r fath.

1.3.4 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi bod yn rhan annatod o baratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ac mae allbynnau dros dro ar gael i helpu i ddatblygu'r Cynllun, yn enwedig o safbwynt effeithiau polisïau sy'n dod i'r amlwg a pholisïau arfaethedig. Yn y modd hwn, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi helpu i lywio datblygiad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (a'r polisïau sy'n dod i'r amlwg) ac mae'n cefnogi cyfraniad y Cynllun at sicrhau datblygu cynaliadwy.

## 1.4 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.4.1 Yn unol â Rheoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ('y Rheoliadau Cynefinoedd'), mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn debygol o gael effaith sylweddol (ar ei ben ei hun, neu ar y cyd â chynlluniau eraill) ar unrhyw safle cadwraeth natur ddynodedig Ewropeaidd, o dan broses a elwir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae safleoedd o'r fath yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar Warchod Adar Gwyllt. Mae polisi'r DU yn rhoi'r un lefel o warchodaeth i safleoedd a restrir neu a gynigir o dan y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol, a elwir yn Gonfensiwn Ramsar, ac i AGA arfaethedig, darpar ACA ac ACA posibl.

1.4.2 Cyhoeddwyd adroddiad yn cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (**llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-asesiad-o-reoliadau-cynefinoedd?_ga**) o'r Cynllun ochr yn ochr â'r cynllun drafft ym mis Rhagfyr 2017.

1.4.3 Mae Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau yn y fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru er mwyn ategu'r Cynllun terfynol. Yn gyffredinol, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dod i'r casgliad y bydd y mesurau yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ynghyd ag argaeledd a'r dull o sicrhau prosesau lliniaru ar lefel brosiect, yn golygu na fydd unrhyw effaith andwyol ar uniondeb unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd ag eraill, o ganlyniad i weithredu'r cynllun. Wrth ddod i'r casgliad, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi y bydd polisïau trawsbynciol cyffredinol y cynllun yn darparu mesurau diogelu ar gyfer safleoedd Ewropeaidd ac y bydd pob cynnig yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel brosiect fel rhan o'r weithdrefn gydsynio.

15 Noder bod Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i gwblhau yn unol â Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol y DU yn hytrach na Rheoliadau Cymru oherwydd y ffaith y gallai'r cynllun gael effaith mewn rhannau eraill o'r DU.

## 1.5 Diben yr adroddiad hwn

1.5.1 Yn unol ag Erthygl 8 o’r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried canfyddiadau adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddod i’w phenderfyniad ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

1.5.2 Mae Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a rheoliad 16 (4) o'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysu’r cyrff ymgynghori, y cyhoedd ac unrhyw Aelod-wladwriaethau eraill yr ymgynghorwyd â hwy ar adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan sicrhau bod yr wybodaeth benodol ganlynol ar gael:

- y cynllun fel y'i mabwysiadwyd;
- datganiad sy’n crynhoi:
  - (i) sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
  - (ii) sut mae adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ystyried;
  - (iii) sut mae’r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi’u hystyried;
  - (iv) y rhesymau dros ddewis Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, fel y'i cyhoeddwyd, o ystyried y dewisiadau amgen rhesymol eraill a drafodwyd;
  - (v) y mesurau sydd i'w cymryd er mwyn monitro’r effeithiau amgylcheddol sylweddol sy’n deillio o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

1.5.3 Diben y Datganiad Ôl-fabwysiadu yw darparu’r wybodaeth benodol a amlinellir o dan bob un o'r pwyntiau a restrwyd rhwng (i) a (v) uchod. Mae'r datganiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 2:** yn nodi sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- **Adran 3:** yn disgrifio sut y cafodd argymhellion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd eu hystyried yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- **Adran 4:** yn crynhoi sut yr aethpwyd ati i ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- **Adran 5:** yn amlinellu'r rhesymau dros ddewis Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel y'i mabwysiadwyd o ystyried y dewisiadau amgen rhesymol a gafodd eu hystyried a’u harfarnu;
- **Adran 6:** yn nodi sut y bydd effeithiau arwyddocaol yn cael eu monitro.

1.5.4 Mae tabl sy'n dangos sut mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu yn cydymffurfio â gweithdrefnau ôl-fabwysiadu Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**.



# 2. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru

## 2.1 Ystyriaethau amgylcheddol yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru

2.1.1 Mae ystyriaethau amgylcheddol yn rhan annatod o'r polisi a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae'r cynllun yn seiliedig ar ofynion Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n cynnwys polisïau yn ymwneud â datblygu ardal y cynllun morol mewn ffordd gynaliadwy.

2.1.2 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys amcan cyffredinol i *"Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru a chefnogi egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol trwy'r penderfyniadau a wneir a thrwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ddefnydd a wneir o'r amgylchedd morol."* Mae hyn yn sbarduno ystyriaethau amgylcheddol trwy gefnogi datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chefnogi'r saith nod llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r amcan ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a sefydlwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac mae'r ddau'n cynnwys ystyriaethau amgylcheddol.

2.1.3 Hefyd, mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru trwy'r ystod o amcanion a pholisïau yn y cynllun sy'n ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd. Er enghraifft, mae amcanion amgylcheddol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cynnal a gwella bioamrywiaeth morol, diogelu ansawdd dŵr, a chamau gweithredu sy'n cefnogi ymaddasu a lliniaru newid hinsawdd. Hefyd, mae'r polisïau yn y cynllun yn ceisio diogelu'r amgylchedd trwy ddarparu canllawiau ar gyfer cynllunio morol ar faterion megis rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ardal y cynllun, effeithiau cronnol a chynllunio trawsffiniol. Hefyd, mae polisïau yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer cydnerthedd ecosystemau, osgoi llygredd a sbwriel morol, lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd a newid arfordirol, osgoi sŵn tanddwr a diogelu ansawdd yr aer a dŵr.

2.1.4 Ochr yn ochr â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol, mae rhai o'r polisïau sector yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol, er enghraifft, trwy'r gofyniad i ddatblygiadau gyfrannu at amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a hyrwyddo'r broses o wella dealltwriaeth o ddefnyddio adnoddau yn gynaliadwy. Hefyd, bydd cynnwys cymorth ar gyfer datblygiadau ynni carbon isel yn cyfrannu at y newid i ddyfodol carbon isel, gan ragweld yr angen i ymateb i hinsawdd sy'n newid.

2.1.5 Mae'r polisi yn ymwneud â morlynnoedd llanw wedi esblygu mewn ymateb i ystyriaethau amgylcheddol. Roedd fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cymorth ar gyfer morlynnoedd llanw, yn rhannol fel cyfraniad at ddatblygu ynni carbon isel yng Nghymru. Yn dilyn ymgynghoriad ar fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, adolygodd Llywodraeth Cymru'r polisi arfaethedig yn sgil yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad a newidiadau polisi ehangach. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys ystyriaethau o effeithiau posibl y polisi hwn ar yr amgylchedd ac ar fioamrywiaeth, ac arweiniodd at newid polisi er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu tystiolaeth i wella dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer morlynnoedd llanw yn y dyfodol.

## 2.2 Ystyriaethau amgylcheddol trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

### Ystyriaethau amgylcheddol o fewn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

2.2.1 Mae'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol posibl a ystyriwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u llywio'n bennaf gan y canlynol:

- y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r rheoliadau gweithredu. Mae Atodiad I o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ac Atodlen 2 o'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad gynnwys gwybodaeth am yr *"effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd;*

*gan gynnwys bioamrywiaeth, y boblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsawdd, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol, tirwedd a pherthynas y ffactorau hyn â'i gilydd";*

- cwmpas Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- adolygu cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill a'r wybodaeth sylfaenol sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru;
- ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar feini prawf arfaethedig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cwestiynau cyfarwyddyd a amlinellir yn yr SSE drafft.

2.2.2 Defnyddiwyd fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd i helpu i arfarnu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ac mae'n adlewyrchu'r amrywiaeth o faterion a nodwyd trwy ystyried y ffactorau a amlinellir uchod. Mae fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chwestiynau cyfarwyddyd sy'n cynrychioli'r canlyniad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol dewisol yn gyffredinol. Trwy asesu pob elfen o fersiwn Ddrafft arfaethedig Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (boed yn weledigaeth, amcanion neu bolisïau), mae'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol posibl wedi'u nodi. Mae **Tabl 2.1** yn cyflwyno fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

**Tabl 2.1: Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd**

| Meini prawf | |
|---|---|
| 1. | Diogelu a gwella bioamrywiaeth (cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau). |
| 2. | Diogelu a gwella ansawdd dŵr wyneb, dŵr daear, dŵr aberoedd a dŵr arfordirol. |
| 3. | Diogelu a gwella nodweddion ffisegol yr amgylchedd morol. |
| 4. | Diogelu a gwella ansawdd yr aer. |
| 5. | Diogelu a gwella cymeriad y dirwedd a'r morlun a nodweddion gwarchodedig eraill. |
| 6. | Cyfyngu ar achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo ymaddasu. |
| 7. | Diogelu a gwella adnoddau treftadaeth ddiwylliannol, hanesyddol a diwydiannol. |
| 8. | Cefnogi a gwella'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| 9. | Cefnogi twristiaeth briodol yng Nghymru a diogelu a gwella cyfleoedd ar gyfer hamdden. |
| 10. | Hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. |
| 11. | Cefnogi datblygu cynaliadwy yn yr economi forol ac arfordirol. |
| 12. | Cynnal a gwella lles cymunedau lleol. |
| 13. | Diogelu a gwella iechyd pobl gan roi sylw arbennig i grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas. |
| 14. | Hyrwyddo llywodraethu da. |

## Ystyriaethau amgylcheddol trwy broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

2.2.3 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae prif gamau proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u crynhoi isod:

- Ymgynghoriad ar gwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o ymgynghoriad drafft SSE[16] a gynhaliwyd ym mis Awst 2014. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio'r SSE diwygiedig a gyflwynir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru,[17] ac mae'n cynnwys gwybodaeth am gyflwr amgylchedd morol Cymru (gan gynnwys y sefyllfa bresennol a thueddiadau'r dyfodol) a'r cyd-destun polisi perthnasol.
- Adborth parhaus, anffurfiol ar weledigaeth, amcanion a pholisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ynghyd ag adolygiad[18] cynaliadwyedd lefel uchel o bolisïau sy'n dod i'r amlwg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â fersiwn Ddrafft gychwynnol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2015.
- Arfarniad manwl o bolisïau fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn unol â'r dull a nodir yn y broses SSE (fel y'i diwygiwyd i adlewyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad). Cyflwynwyd canfyddiadau'r arfarniad mewn Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Drafft Cychwynnol[19] a gyhoeddwyd i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a chyrff eraill ar gyfer sylwadau rhwng 16 Chwefror a 10 Mawrth 2017.
- Cyhoeddi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd[20] i gyd-fynd â fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
- Arfarnu Dewisiadau Polisi Morlynnoedd Llanw.
- Arfarnu newidiadau i fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

2.2.4 Cwblhawyd Arfarniad o Gynaliadwyedd fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 2017. Paratowyd adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i fodloni gofynion adrodd y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol gan asesu elfennau allweddol canlynol y cynllun:

- gweledigaeth;
- amcanion y cynllun;
- amcanion y sector;
- polisïau trawsbynciol cyffredinol;
- polisïau'r sector (gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol).

2.2.5 Yn ogystal, arfarnwyd y dewisiadau amgen rhesymol i fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (fel y'i cynigiwyd).

2.2.6 Roedd y sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn eang iawn, gan gwmpasu pob agwedd ar yr adroddiad, gan gynnwys y fethodoleg, canfyddiadau'r arfarniad, argymhellion a chynigion monitro.

2.2.7 Ar ôl yr ymgynghoriad ar fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, adolygodd Llywodraeth Cymru'r polisi arfaethedig yn ymwneud â morlynnoedd llanw, fel y'i nodir ym Mholisi ELC_01, yn dilyn yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Sefydlwyd Polisi Morlyn Llanw a Gweithgor Technegol Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn darparu cyngor ac arweiniad ar y mater hwn ac ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysylltiedig. Mewn cydweithrediad â'r

16 Llywodraeth Cymru (2014) *Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Ymarferiad Cwmpasu Strategol Drafft*.

17 Llywodraeth Cymru et al (2015) *Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru*. Ar gael yn **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/adroddiad-ar-dystiolaeth-morol-cymru-crynodeb.pdf**

18 Amec Foster Wheeler (2015) *High Level Sustainability Review of the Emerging Policies of the Initial Pre-Consultation Draft Welsh National Marine Plan*. Ar gael yn **gov.wales/docs/drah/publications/151127-welsh-national-marine-plan-sustainability-review-en.pdf**

19 Amec Foster Wheeler (2017) *Welsh National Marine Plan: Sustainability Appraisal Report (Initial Draft)*.

20 Amec Foster Wheeler (2017) *Welsh National Marine Plan: Sustainability Appraisal Report*. Ar gael yn: **llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-adolygiad-cynaliadwyedd**

Gweithgor Technegol, aeth Llywodraeth Cymru ati i nodi ac ystyried nifer o ddewisiadau polisi morlyn llanw posibl. Roedd y dewisiadau polisi a nodwyd yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ystyriodd Llywodraeth Cymru'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y dewisiadau polisi morlyn llanw ynghyd â'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Gweithgor Technegol a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad i'r broses hon, dewiswyd y testun polisi 'Canolbwyntio ar Dystiolaeth' fel y dull polisi a ffefrir ar gyfer datblygu amrediad llanw.

2.2.8 Mae'r effeithiau arwyddocaol tebygol a fydd yn deillio o newidiadau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'u nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso hefyd. Mae hyn wedi cynnwys ystyried effeithiau eilaidd, cronnol, synergyddol a thrawsffiniol, a'r effeithiau sy'n codi o'r dewisiadau amgen rhesymol i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

2.2.9 Yn gyffredinol, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi canfod y bydd gweithredu polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael effeithiau cadarnhaol ar y rhan fwyaf o feini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd wedi darparu'r fframwaith ar gyfer yr arfarniad. Yn gyffredinol, mae hyn yn adlewyrchu'r canlynol:

- y fframwaith cryf sy'n cael ei ddarparu gan bolisïau'r cynllun i helpu i warchod a gwella amgylchedd morol Cymru a chefnogi'r broses o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- cynnwys polisïau a fydd yn sicrhau bod gweithgarwch economaidd presennol yn yr ardal forol yn cael ei ddiogelu, gan hyrwyddo cynhyrchiant a thwf y sector;
- y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n debygol o ddeillio o gefnogi twf glas (gan gynnwys twristiaeth) yn yr ardal forol;
- y gefnogaeth a roddir i gynigion sy'n helpu i symud tuag at Gymru carbon isel (ar sail y polisïau trawsbynciol cyffredinol a'r polisïau sector) mewn perthynas â gwynt ar y môr, ynni tonnau, ffrwd lanw ac amrediad llanw, gan gydnabod rôl dros dro adnoddau tanwydd ffosil (gan gynnwys olew a nwy) a dewisiadau ar gyfer dal a storio carbon deuocsid gwastraff;
- annog cynigion ar gyfer datblygu economaidd sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth leol a chyfoeth, yn mynd i'r afael ag amddifadedd ac yn cynyddu sgiliau, gan gynnig manteision sylweddol posibl i gymunedau arfordirol Cymru;
- pwyslais y polisïau trawsbynciol cyffredinol ar ystyried effeithiau cronnol, rheoli addasol a chymhwyso dadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau.

2.2.10 Yn ogystal ag ystyried effeithiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar feini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, cwblhawyd asesiad o gyfraniad tebygol y cynllun tuag at gyflawni'r nodau llesiant a sefydlwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r amcan ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Daeth hyn i'r casgliad canlynol:

> *"Amcan cyffredinol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw "Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru a chefnogi egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol trwy'r penderfyniadau a wneir a thrwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ddefnydd a wneir o'r amgylchedd morol." Gan adlewyrchu'r amcan hwn, mae polisïau cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn debygol o wneud cyfraniad cadarnhaol arwyddocaol tuag at gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru, gan gefnogi'r amcan ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy."*


MAPFRE
inmarsat
SAILOR
RCNS

# 3. Sut mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ystyried

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i gwblhau mewn ffordd ailadroddol ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru er mwyn gwella ei berfformiad o ran cynaliadwyedd. Mae'r broses ailadroddol hon wedi'i dogfennu mewn nifer o adroddiadau gan gynnwys Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

3.1.2 Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae canfyddiadau proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Adroddiad dilynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u hystyried yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

## 3.2 Sut mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ystyried wrth ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

3.2.1 Bu'r gwaith o baratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a chwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses ailadroddol. Darparwyd adborth anffurfiol ar ddatblygu gweledigaeth, amcanion a pholisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i Lywodraeth Cymru ar y cyd ag adolygiad cynaliadwyedd lefel uchel o bolisïau sy'n dod i'r amlwg yn Fersiwn Ddrafft Cychwynnol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyn yr ymgynghoriad. Cwblhawyd yr adolygiad lefel uchel er mwyn darparu safbwyntiau dros dro ar oblygiadau cynaliadwyedd polisïau dangosol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, fel cyfraniad cynnar at eu datblygu ymhellach. Cyhoeddwyd yr adolygiad ar y cyd â fersiwn Ddrafft Cychwynnol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2015.

3.2.2 Daeth yr adolygiad cynaliadwyedd lefel uchel i'r casgliad y byddai'r polisïau trawsbynciol cyffredinol drafft sy'n datblygu yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu effaith gadarnhaol sylweddol ar feini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yn y cyfamser, nodwyd bod y polisïau drafft a oedd yn datblygu ar gyfer y sector yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar feini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, er i'r adolygiad ddod i'r casgliad y gellid lleihau'r effeithiau negyddol a nodwyd trwy bolisïau Drafft eraill Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (yn benodol, y polisïau trawsbynciol cyffredinol sy'n hyrwyddo cadwraeth a gwelliannau amgylcheddol) ac y byddai systemau trwyddedu a chydsynio presennol yn sicrhau y byddai unrhyw effeithiau andwyol sylweddol sy'n gysylltiedig â chynigion yn yr ardal forol yn cael eu hystyried yn llawn a'u lleihau/lliniaru lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

3.2.3 Gwnaed nifer o argymhellion trwy'r adolygiad lefel uchel o fersiwn Ddrafft Cychwynnol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. O safbwynt y polisïau trawsbynciol cyffredinol sy'n dod i'r amlwg, canolbwyntiodd yr argymhellion hyn yn bennaf ar addasu geiriad y polisi er mwyn nodi yn fwy cywir sut y gallai'r polisi hyrwyddo buddiannau datblygu cynaliadwy yn ogystal â chyfleoedd i uno polisïau er mwyn cyflwyno bwriadau strategol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn fwy eglur. Hefyd, argymhellwyd y dylid cynnwys polisi penodol yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. O safbwynt polisïau'r sector sy'n dod i'r amlwg, roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar gynnwys geiriad polisi ychwanegol a/neu destun ategol yn ymwneud â'r canlynol:

- nodi ffactorau i'w hystyried wrth bennu effeithiau posibl ar weithgareddau presennol y sector;
- nodi'r achosion lle y gellir cefnogi cynigion a fyddai'n cael effaith andwyol ar weithgareddau penodol;
- amlygu'r ystod o effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol posibl a allai ddeillio o weithgareddau amrywiol y sector a'r mesurau lliniaru cysylltiedig;
- sicrhau bod effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol andwyol gweithgareddau'r sector yn cael eu hosgoi, eu lleihau neu eu lliniaru a bod effeithiau cadarnhaol yn cael eu cynyddu;
- osgoi dyblygu deddfwriaeth bresennol.

3.2.4 Cafodd argymhellion yr adolygiad cynaliadwyedd lefel uchel eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Yn benodol, ar sail canfyddiadau'r adolygiad, cafodd polisi penodol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ei gynnwys (gweler Polisi SOC_04).

3.2.5 Cyhoeddwyd Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2017, a daeth i ben ar 29 Mawrth 2018. Roedd yn cynnwys 24 o argymhellion ar gyfer diwygiadau polisi er mwyn gwella perfformiad yn erbyn meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, er enghraifft:

- *"GEN_01: Gallai'r polisi gyfeirio'n benodol at sicrhau bod penderfyniadau cynllunio gofodol morol yn gyson ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (er y cydnabyddir bod yr elfen hon wedi'i chynnwys yn y testun ategol).*
- *SOC_06: Gallai Polisi SOC_06 gyfeirio'n benodol at osgoi/lleihau effeithiau andwyol ar ddibenion a phriodweddau arbennig Parciau Cenedlaethol ac AHNE.*
- *ELC_01: Gallai geiriad y polisi gyfeirio'n benodol at hyrwyddo gwaith ymchwil a datblygu yn ogystal â chydweithio er mwyn deall ymhellach y cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy gan gynnwys cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol yn ogystal ag effeithiolrwydd mesurau lliniaru. Gallai hyn helpu i fireinio ehangder yr Ardaloedd Adfywio Strategol a nodwyd ar gyfer y sector hwn mewn cynlluniau morol yn y dyfodol, a datrys yr ansicrwydd a nodwyd wrth asesu Polisi ELC_01."*

3.2.6 Yn dilyn ymgynghoriad a dadansoddiad dilynol o'r ymatebion, gwnaed diwygiadau sylweddol i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a oedd yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd arall (fel yr amlinellir yn Adran 2). Ystyriodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ochr yn ochr â'r sylwadau a dderbyniwyd er mwyn llunio ei fersiwn derfynol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan ddefnyddio proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i helpu i fireinio a chanolbwyntio cyfeiriad polisi, lle bo'n berthnasol; er enghraifft, trwy gryfhau geiriad Polisi ECON_02 i ganolbwyntio ar ddangos sut mae cyfleoedd ar gyfer cydfodolaeth wedi cael eu hystyried, neu ychwanegu geiriad ar osgoi/lleihau effeithiau andwyol i Bolisi SOC_06 (tirweddau dynodedig) i gyd-fynd â hyrwyddo effeithiau cadarnhaol (gan gryfhau'r dull polisi hefyd er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i wella yn hytrach na chydweddoldeb).

3.2.7 Rhoddwyd sylw i faterion trawsbynciol fel sicrhau cysondeb wrth roi egwyddorion Rheol Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar waith gan nifer o welliannau i'r geiriad yn y Cynllun terfynol. Hefyd, roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn llywio dull Llywodraeth Cymru o wella Polisi ELC_01 (ynni carbon isel), ac roedd proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, er enghraifft, yn ganolog i wella polisi mewn perthynas â morlynnoedd llanw.

3.2.8 Yn benodol, sefydlwyd grŵp technegol i ddatblygu cyfres o ddewisiadau polisi posibl ar gyfer morlynnoedd llanw, a oedd yn destun arfarniad ac Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y pryd. Ni chafodd dewisiadau polisi nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dewisiadau amgen rhesymol (fel y'u nodwyd o dan Erthygl 5 (1) o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol) eu cynnwys yn yr asesiad hwn. Roedd dewisiadau polisi a ystyriwyd yn ddewisiadau amgen rhesymol (gan gynnwys y dewis sylfaenol i gadw polisi fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru) yn destun arfarniad yn erbyn meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn bwysig iawn i'r broses o benderfynu'r dull polisi a ffefrir, ochr yn ochr â ffactorau fel sylwadau o'r ymarferiad ymgynghori a chyngor gan y grŵp technegol.

3.2.9 Yn ogystal ag argymhellion polisi penodol, roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion eang a allai gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth weithio tuag at baratoi'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rhestrir yr argymhellion hyn isod:

- **Datrys ansicrwydd:** Yn ôl yr arfarniad o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, er gwaethaf fframwaith rheoleiddio a darpariaethau polisi presennol y cynllun, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd effeithiau'n digwydd, ac ehangder yr effeithiau. Bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar union natur, graddfa a lleoliad datblygiadau yn y dyfodol yng nghyd-destun sensitifrwydd/capasiti'r amgylchedd perthnasol. Mae datblygu cynlluniau morol yn y dyfodol yn gyfle i ddatrys yr ansicrwydd hwn trwy ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a monitro parhaus (gweler **Adran 6**) hefyd) ac yn hyn o beth, nodir bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys nifer o bolisïau sy'n ymwneud â datblygu'r sylfaen dystiolaeth forol. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen ar gyfer gwaith ymchwil pellach a allai ganolbwyntio ar y canlynol, er enghraifft:
  - capasiti amgylcheddol yr Ardaloedd Adfywio Strategol arfaethedig i hwyluso datblygiadau ar gyfer sectorau gwahanol;
  - gwerth ecosystemau morol a'r nwyddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu;
  - symiau, ansawdd a dosbarthiad yr adnoddau naturiol yn yr ardal forol a'u capasiti i gefnogi'r datblygiad cynaliadwy;
  - effeithiau amgylcheddol posibl datblygiadau a gweithgarwch newydd yn yr ardal forol gyda phwyslais penodol ar ddatblygu ynni adnewyddadwy;
  - y cyfleoedd i osgoi, rheoli a lliniaru effeithiau andwyol sylweddol sy'n gysylltiedig â datblygiad a gweithgarwch newydd yn yr ardal forol;
  - y gwrthdaro a'r tebygolrwydd posibl sy'n bodoli rhwng defnyddwyr morol, gweithgareddau a'r amgylchedd a sut maent yn berthnasol i nodau llesiant Cymru;
  - effeithiau cronnol gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau a rhaglenni eraill gan gynnwys cynlluniau morol y gweinyddiaethau cyfagos;
  - y cyfleoedd i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac i helpu i gyflawni nodau llesiant Cymru trwy ddatblygu a defnyddio'r amgylchedd morol;
  - dylid datblygu unrhyw raglen ymchwil ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a'i chyflwyno trwy ddulliau cydweithio ac ymgysylltu gan gynnwys ar draws ffiniau. Dylai gwaith ymchwil fod yn seiliedig ar brofiad sy'n deillio o gydsynio, datblygu, gweithredu a datgomisiynu cynigion er mwyn llywio penderfyniadau a pholisi yn y dyfodol.
- **Gwella Ardaloedd Adfywio Strategol presennol a nodi rhai newydd:** Trwy wella dealltwriaeth o gapasiti Ardaloedd Adfywio Strategol, cysondeb sectorau a dosbarthiad/capasiti adnoddau naturiol, mae'n bosibl y bydd cynlluniau morol yn y dyfodol yn gallu darparu lefel uwch o fanyldeb gofodol nag sy'n bosibl ar hyn o bryd (yn gymesur â lefel y dystiolaeth sydd ar gael). Byddai hyn yn cynyddu'r sicrwydd ar gyfer datblygiad/gweithgarwch yn yr ardal forol yn y dyfodol, gan helpu i gefnogi datblygiad economaidd (er enghraifft, trwy roi mwy o hyder i fuddsoddwyr) a darparu diogelwch cadarnhaol ar gyfer yr amgylchedd morol (er enghraifft, trwy eithrio nodweddion sensitif safleoedd cadwraeth natur dynodedig o Ardaloedd Adfywio Strategol). Yn y cyswllt hwn, nodir bod polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn hyrwyddo cydweithredu rhwng awdurdodau perthnasol, sectorau a phartïon eraill â buddiant er mwyn gwella/nodi Ardaloedd Adfywio Strategol.
- **Nodi targedau:** Gall tystiolaeth yn ymwneud â chapasiti olygu bod modd nodi targedau mewn cynlluniau morol yn y dyfodol. Gall targedau o'r

fath ymwneud â nifer y swyddi sydd i'w creu dros gyfnod y cynllun, faint o agregau sydd i'w cynhyrchu neu faint o ynni carbon isel sydd i'w gynhyrchu. Gallai hyn helpu i sicrhau mwy o eglurder o safbwynt canlyniadau arfaethedig cynlluniau yn y dyfodol, cynorthwyo gwaith monitro yn y dyfodol ac atal gorddefnyddio adnoddau.

- **Darparu canllawiau atodol:** Wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg yn ymwneud ag Ardaloedd Adfywio Strategol a sectorau penodol (yn enwedig yn ystod y cyfnod interim rhwng mabwysiadu ac adolygu'r cynllun), gellid cyflwyno hyn mewn cyfres o Hysbysiadau Cynllunio Morol atodol sy'n gysylltiedig â Phorth Cynllunio Morol Cymru. Gallai'r Hysbysiadau Cynllunio Morol ddarparu manylion ac arweiniad ar gyfer y blaenoriaethau, y cyfyngiadau a'r cyfleoedd ym mhob Ardal Adfywio Strategol. Hefyd, gallai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid datblygu canllawiau atodol ychwanegol ar bynciau neu sectorau penodol er mwyn darparu rhagor o fanylion mewn perthynas â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a sicrhau eu bod yn cael eu deall a'u cymhwyso'n effeithiol.
- **Adolygu effeithiolrwydd polisïau:** Dylid parhau i fonitro'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru er mwyn adolygu pa mor effeithiol yw polisïau'r cynllun o ran sicrhau datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru. Wrth werthuso effeithiolrwydd polisïau'r cynllun, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r Tîm Trwyddedu Morol a defnyddwyr eraill y cynllun.
- **Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio gofodol morol yn gyson ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru:** mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau datblygu cynaliadwy gyda'r nod o gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno nifer o egwyddorion sy'n sylfaen i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ystyriaeth i'r ffordd orau o sicrhau a dangos bod egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a nodau llesiant Cymru yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu cynlluniau a gwneud phenderfyniadau ar gynllunio gofodol morol yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni ei dyletswydd i sicrhau datblygu cynaliadwy. Gellid cyflawni hyn trwy baratoi rhestr wirio/rhestri gwirio a chanllawiau cysylltiedig, er enghraifft.

3.2.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion hyn ynghyd â thystiolaeth arall wrth gwblhau adolygiad o'r Cynllun Morol yn 2023.



# 4. Sut mae safbwyntiau a fynegwyd ar yr ymgynghoriad wedi'u hystyried

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r dull ymgynghori cyffredinol wedi'i adlewyrchu yn y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd[21] lle mae Llywodraeth Cymru yn datgan *"ei bod yn hanfodol ystyried barn a buddiannau llawer o bobl a sefydliadau gwahanol yn ystod y broses cynllunio morol"* sy'n *"pwysleisio ein hymrwymiad i wneud hynny mewn modd ystyrlon a pharhaus"*. Mae'r adran hon yn disgrifio'r ymgynghoriad ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gyfeirio at y modd yr aethpwyd ati i ystyried ymatebion.

## 4.2 Ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

4.2.1 Mae ymgynghoriad cyhoeddus parhaus wedi bod yn rhan bwysig o ddatblygiad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae hyn wedi cynnwys:

- ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfennau cynllunio morol penodol wedi'i ategu gan ddigwyddiadau ymgysylltu a holiaduron;
- sefydlu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol i roi adborth i randdeiliaid ar gynnwys Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r prosesau cysylltiedig, ac i roi cyngor ar weithredu'r cynllun mabwysiedig;
- sefydlu gweithgorau technegol i ystyried pynciau neu bolisïau penodol e.e. polisi amrediad llanw.

4.2.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Ionawr 2016 ar y canlynol:

- Datganiad o gyfranogiad y cyhoedd ar gyfer cynllunio morol;
- Gweledigaeth ac Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- y sylfaen dystiolaeth (SSE);
- cwmpasu'r cynllun SA/HRA;
- drafft cychwynnol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

4.2.3 Datblygodd Llywodraeth Cymru fersiwn Ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan adlewyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol hwn, y sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol. Dechreuodd y broses o ymgynghori â'r cyhoedd ar 7 Rhagfyr 2017 a daeth i ben ar 29 Mawrth 2018.

4.2.4 Cefnogwyd yr ymgynghoriad gan ymgysylltiad gweithredol â rhanddeiliaid trwy sesiynau galw heibio lleol, ystod eang o drafodaethau mewn cyfarfodydd a chynhadledd genedlaethol gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal o fewn y cyfnod ymgynghori yn:

- Abertawe;
- Saundersfoot;
- Bangor;
- Aberystwyth;
- Y Fflint;
- Caerdydd.

4.2.5 Roedd sawl dogfen ategol yn cyd-fynd â'r Cynllun drafft a'r ddogfen ymgynghori, gan gynnwys:

- trosolwg o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n datblygu;
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;
- Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- adolygiad o Bolisi Carthu Agregau Morol interim.

4.2.6 Gofynnodd yr ymgynghoriad 17 o gwestiynau yn ymwneud â'r fersiwn Ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ategol.

4.2.7 Derbyniwyd cyfanswm o 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan y sectorau canlynol sy'n cwmpasu buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol:

- Cyrff academaidd;
- Busnesau;
- Llywodraeth/y Sector Cyhoeddus;

21 Llywodraeth Cymru (2018) Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd. Ar gael yn: **llyw.cymru/datganiad-o-gyfranogiad-y-cyhoedd-i-gynllun-morol-cenedlaethol-cymru?_ga**

- Hamdden a Thwristiaeth;
- Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned a Thref;
- Aelodau'r cyhoedd;
- Cyrff a chymdeithasau proffesiynol;
- Sefydliadau/fforymau cynrychioladol a lleol;
- Y Trydydd Sector.

4.2.8 Cyhoeddwyd Crynodeb o'r Ymatebion[22] i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018, gan ddadansoddi a nodi'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwblhawyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae Tabl 4.1 yn crynhoi'r themâu, y sylwadau ac ymateb Llywodraeth Cymru.

**Tabl 4.1: Crynodeb o sylwadau'r ymgynghoriad**

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid | Y newid a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau |
|---|---|
| **Strwythur Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** | |
| Mae'r fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn hir iawn. Gellid symud elfennau o wybodaeth ategol a chyd-destunol i atodiadau, gan leihau hyd y cynllun a chynyddu ei ddefnyddioldeb.<br>Mae cynnwys canllawiau gweithredu technegol a manwl yn fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn arwain at y canllawiau hyn yn cael eu labelu fel polisi, gan greu dryswch rhwng statws y canllawiau hyn a pholisïau gwirioneddol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Byddai'r canllawiau hyn yn well mewn dogfen(nau) atodol y gellir eu diweddaru'n fwy hyblyg, gan alluogi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i fod yn symlach ac yn haws ei ddefnyddio. | Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i ailffocysu ar y weledigaeth graidd, yr amcanion a'r polisïau. Ategir polisïau'r cynllun gan naratifau polisi cliriach a mwy cryno. Mae cymorth technegol a deunydd cyfarwyddyd wedi'i drosglwyddo i Ganllawiau Gweithredu ar wahân a dogfennau canllawiau atodol eraill. Mae Cyflwyniad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn egluro statws y Canllawiau Gweithredu fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau.<br>Mae polisi diogelu wedi'i symleiddio trwy gyflwyno Polisi Diogelu Cyffredin yn lle Polisïau Diogelu Sector unigol (ar gyfer sectorau ar wahân i Amddiffyn).<br>Mae naratif ar y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer cynllunio morol, ar y broses cynllunio morol ac ar integreiddio â phrosesau cynllunio eraill wedi'i drosglwyddo i Atodiad 1 i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. |
| **Cydlynu polisi** | |
| Nid yw hi'n glir sut mae polisïau'r cynllun yn rhyngweithio â'i gilydd a pha bolisïau sy'n cael blaenoriaeth os bydd gwrthdaro; er enghraifft, rhwng polisïau Cyffredinol a Sector. | Ychwanegwyd rhagor o eglurder at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan gadarnhau bod pob polisi yr un mor berthnasol â'i gilydd, heb unrhyw hierarchaeth yn y polisïau. Nid yw polisïau GEN_01 a GEN_02 yn cael eu disgrifio fel rhai cyffredinol mwyach.<br>Ychwanegwyd tabl at y Cyflwyniad yn dangos aliniad y Polisïau Cyffredinol a Sector i Amcanion y Cynllun. Mae geiriad y Polisïau Sector wedi'i ddiwygio i gyfeirio'n benodol at y gofyniad i gyd-fynd â'r Polisïau Cyffredinol. Nid oedd unrhyw gefnogaeth gan aelodau MPSRG i gynnwys tabl yn nodi'r aliniad rhwng Polisïau Cyffredinol a Sector. |

22 Llywodraeth Cymru (2018) Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb – Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru – drafft. Ar gael yn: **llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft?_ga**

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid | Y newid a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau |
|---|---|
| Mae rhywfaint o anghysondeb o ran y geiriad rhwng gwahanol bolisïau sy'n peri risg yn anfwriadol o greu hierarchaeth polisi. | Adolygwyd geiriad polisïau unigol a chyflwynwyd terminoleg gyson lle bo angen. |
| Lle mae polisïau wedi'u fframio i roi anogaeth gyffredinol i fathau penodol o gynigion, mae diffyg eglurder o ran yr hyn a olygir gan y term 'annog'. | Lle'n berthnasol, mae geiriad y Polisïau Cyffredinol wedi'i ddiwygio i nodi gofynion ar gyfer cynigion i ddangos sut maent wedi mynd i'r afael â'r ystyriaethau sy'n berthnasol i'r nod polisi. Mae cyfeiriad polisi sydd wedi'i eirio'n gadarnhaol wedi'i gadw er mwyn galluogi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i weithredu fel fframwaith cynllunio cadarnhaol.<br>Mae geiriad y Polisïau Sector wedi'i ddiwygio i ddatgan y caiff cynigion sy'n cyfrannu at amcanion a pholisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ac yn cydymffurfio â nhw, eu cefnogi.<br>Ategir Polisïau Cyffredinol a Sector gan naratif ar y nodau allweddol a'r egwyddorion sylfaenol. |
| **Datblygu Cynaliadwy** | |
| Mae angen gwell cydbwysedd ac integreiddio'r tair colofn Datblygu Cynaliadwy (Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol). Ar hyn o bryd, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar dwf yr economi forol nag ar sicrhau cydnerthedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br>Mae Polisïau Sector yn canolbwyntio ar dwf economaidd a gallai danseilio amcanion y cynllun ar adfer cydnerthedd ecosystemau. Mae gan bolisi sy'n mynegi cefnogaeth i seilwaith morlyn llanw ar raddfa fawr botensial sylweddol i arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig. Nid yw SRAs yn seiliedig ar ystyriaeth o gyfyngiadau amgylcheddol na sensitifrwydd ar hyn o bryd. | Datblygwyd polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i weithio gyda'i gilydd, gyda Pholisïau trawsbynciol Cyffredinol a Pholisïau Sector yn dod at ei gilydd i gefnogi datblygu cynaliadwy ar y cyd. Nodir hyn yn glir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac mae geiriad y Polisïau Sector wedi'i ddiwygio i ddangos y gofyniad i gyd-fynd ag Amcanion y Cynllun a'r Polisïau Cyffredinol.<br>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru bellach yn cyfeirio'n fwy clir at werth cynhenid yr amgylchedd morol ac ecosystemau'r môr. Mae'r cyfeiriadau at flaenoriaethu buddsoddiad, arloesi a thwf wedi'u dileu o'r polisi sy'n cyd-fynd â GEN_01. Mae polisi ENV_01 ar ecosystemau morol cydnerth wedi'i gryfhau i'w gwneud hi'n ofynnol i ystyried effeithiau andwyol posibl, ochr yn ochr ag annog manteision cadarnhaol.<br>Mae targedau twf penodol i sector wedi'u dileu. Mae polisi morlyn llanw wedi canolbwyntio ar ddull cam wrth gam i gefnogi'r sector, gan gynnwys datblygu tystiolaeth i ganiatáu gwell dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol. |

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid | Y newid a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau |
|---|---|
| | Dilëwyd y cysylltiad rhwng SRAs a Pholisïau Sector, a chaiff SRAs eu hailffocysu fel offeryn i ddiogelu'r defnydd posibl o adnoddau cynaliadwy yn y dyfodol. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn nodi'r meini prawf i'w hystyried wrth ddatblygu SRAs, sy'n cynnwys cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol. Mae eglurhad na fydd SRAs yn llesteirio'n ormodol ddynodiad MPAs er mwyn sicrhau cyfraniad priodol at rwydwaith MPA ystyrlon wedi'i ychwanegu at naratif y polisi. |
| I gyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA), ni ddylid defnyddio'r termau "sicrhau'r twf mwyaf" a "twf cynaliadwy"; dylid cyfeirio'n gyson at "datblygu cynaliadwy". Dylid darparu diffiniad o Dwf Glas. | Mae'r testun yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru drwyddo draw wedi'i fireinio, gyda chyfeiriadau at sicrhau'r twf mwyaf neu annog twf cynaliadwy wedi'u dileu, a chyfeiriadau cyson at ddatblygu cynaliadwy wedi'u cynnwys.<br>Mae diffiniad o Dwf Glas wedi'i ddarparu, yn seiliedig ar dwf a datblygiad economaidd sy'n cefnogi tegwch cymdeithasol ac yn sicrhau y gall asedau naturiol barhau i ddarparu'r adnoddau a'r manteision amgylcheddol y mae llesiant yn dibynnu arnynt. Cytunwyd ar y diffiniad hwn gyda'r MPSRG. |
| **Statws Amgylcheddol Da (GES)** | |
| Mae'n ymddangos bod rhai polisïau'n cael eu priodoli'n anghywir i Ddisgrifyddion GES.<br>Nid yw'n ymddangos bod gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru unrhyw bolisïau sy'n ymwneud ag uniondeb gwely'r môr na newid amodau hydrograffigol. | Mae naratif ychwanegol wedi'i ymgorffori er mwyn nodi'n gliriach natur cymorth Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i gyflawni GES a'r ffordd mae Disgrifyddion GES yn cael eu trafod gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'i bolisïau.<br>Mae'r naratif wedi'i ychwanegu at Dabl 5, gan nodi natur cymorth Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i gyflawni pob Disgrifydd GES a disgrifio sut mae polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r Disgrifydd hwnnw. Mae hyn yn cynnwys eglurder ar y polisïau sy'n cyfrannu at gyflawni'r Disgrifyddion ar uniondeb gwely'r môr a newid amodau hydrograffigol.<br>Ychwanegwyd testun at y naratifau sy'n cyd-fynd â pholisïau unigol sy'n amlygu aliniad y polisïau hyn i Ddisgrifyddion GES. |

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid | Y newid a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau |
|---|---|
| **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)** | |
| Dylid cymhwyso egwyddorion SNMR yn gliriach a chefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Forol y DU.<br>Cyfeirir at gyflawni SMNR fel canlyniad dymunol yn hytrach na gofyniad sylfaenol. | Mae naratif i gyd-fynd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar y berthynas rhwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chynllunio morol wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi mewn cydweithrediad â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ffocws amcanion ac egwyddorion SMNR yn berthnasol i CNC wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r naratif yn nodi rôl Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel offeryn cynllunio sy'n cefnogi rheoli adnoddau naturiol fel y'i nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP). Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cyd-fynd â chynlluniau a pholisïau strategol a lleol eraill sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r NRP. Mae'r cyfeiriadau at SMNR yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'u symleiddio yn unol â hynny ac mae naratif clir ac estynedig wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sy'n nodi sut y cymhwysir egwyddorion SMNR yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru.<br>Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru bellach yn cyfeirio'n glir at werth cynhenid yr amgylchedd morol ac ecosystemau'r môr. Dilëwyd targedau twf sector, darparwyd mwy o eglurder ar gysoni polisïau'r cynllun â Strategaeth Forol y DU ac mae'r Disgrifyddion GES a'r cysylltiad rhwng SRAs a Pholisi Sector wedi'i ddileu. |
| **Rheoli Trawsffiniol** | |
| Dylid darparu mwy o wybodaeth am sut y cyflawnir cydlyniaeth drawsffiniol (ffiniau tir/môr a ffiniau cenedlaethol/cynllunio morol) a sut y dylid ystyried materion trawsffiniol. | Ehangwyd Atodiad 1 i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a darparu mwy o wybodaeth am integreiddio â phrosesau cynllunio eraill, tra bod polisi GOV_02 wedi'i ailffocysu'n benodol ar gydnawsedd trawsffiniol a chydnawsedd y cynllun.<br>Bydd mwy o gyfeiriadau at ystyriaethau trawsffiniol yn cael eu cynnwys yn y Canllawiau Gweithredu sy'n cyd-fynd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. |
| **Cymesuredd a rhagofal** | |
| Croesawyd ffocws fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gymesuredd a chynnwys polisïau GEN_02 a SCI_01. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd cyfeiriad polisi clir fel bod modd gwneud penderfyniadau cymesur gan sicrhau nad yw'r egwyddor ragofalus yn cael ei cholli. | Mae iaith bellach ar yr egwyddor ragofalus wedi'i hychwanegu at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a bydd y Canllawiau Gweithredu sy'n cyd-fynd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys canllawiau ar wneud penderfyniadau cymesur ac yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus lle bo hynny'n briodol (er enghraifft, lle mae diffyg tystiolaeth yn ffactor). |

## 4.3 Ymgynghoriad ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

### Ymgynghoriad cychwynnol

4.3.1 Cyhoeddwyd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Drafft Cychwynnol i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a chyrff eraill rhwng 16 Chwefror a 10 Mawrth 2017. Derbyniwyd sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y Sefydliad Rheoli Morol, Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

### Ymgynghoriad cyhoeddus ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

4.3.2 Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, fel rhan o'r gyfres o ddogfennau i ategu fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ar 7 Rhagfyr 2017 a daeth i ben ar 29 Mawrth 2018.

4.3.3 Roedd y sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn eang iawn, gan gwmpasu pob agwedd ar yr arfarniad gan gynnwys y fethodoleg, canfyddiadau'r arfarniad, argymhellion a chynigion monitro.

4.3.4 O safbwynt y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, roedd y sylwadau'n ymwneud â'r canlynol:

- y rhagdybiaethau sy'n sylfaen i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac yn benodol i ba raddau y bydd y polisïau trawsbynciol cyffredinol a'r asesiad ar lefel prosiect yn effeithiol wrth liniaru'r effeithiau andwyol a nodwyd yn yr arfarniad;
- cwmpasu effeithiau traws-ffiniol a'r angen i ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol traws-ffiniol;
- yr angen am fwy o eglurder o ran sut y cafodd terfynau amgylcheddol i ardal y cynllun eu hasesu;
- cyfuno pynciau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, 'cydbwyso' canfyddedig effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a'r angen am Adroddiad Amgylcheddol AAS ar wahân;
- y diffiniadau o arwyddocâd a ddefnyddir i arwain yr Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- yr angen i ystyried sut mae fersiwn Ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn perfformio yn erbyn egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- yr angen i gynnwys rhanddeiliaid i raddau mwy mewn asesiadau yn y dyfodol ac ymgorffori asesiad o wasanaethau ecosystem;
- yr angen i gynnal dadansoddiad cydweddoldeb mewnol o'r Cynllun Drafft, gan amlygu synergeddau a meysydd posibl o densiwn rhwng gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r cynllun.

4.3.5 Lle y bo'n briodol, cafodd y sylwadau eu hystyried ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd Fersiwn Ddrafft Ddiwygiedig Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

4.3.6 Cyfeiriodd sawl ymatebwr at yr angen i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ystyried ystod ehangach o ddewisiadau amgen rhesymol i'r Cynllun Drafft, gan gynnwys er enghraifft; cynllun cenedlaethol lefel uchel yn unig, mwy o ddefnydd o barthau a chynlluniau lleol/is-genedlaethol o dan gynllun cenedlaethol. Cafodd y dewisiadau amgen hyn eu hystyried ymhellach gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Drafft Diwygiedig, ac, yn achos y cynllun lefel uchel amgen, fe'i cyflwynwyd fel sylfaen i'r cynllun diwygiedig. Ni ddatblygwyd dewisiadau amgen eraill a awgrymwyd gan nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol.

4.3.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â chanfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymwneud â'r effeithiau a nodwyd o ganlyniad i elfen morlyn llanw Polisi ELC_01. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r canlynol (inter alia):

- yr angen i ystyried effeithiau datblygu ynni adnewyddadwy ar y sector porthladdoedd a llongau;
- amlygrwydd effeithiau morlynnoedd llanw yng nghyd-destun rhwydweithiau safleoedd morol gwarchodedig sy’n ecolegol gydlynus;
- yr angen i ystyried yn llawnach effeithiau cronnol prosiectau morlyn llanw lluosog;
- i ba raddau y gall rhai o'r effeithiau a nodwyd mewn perthynas â morlynnoedd llanw fod yn arwyddocaol (er enghraifft, o ran halwynedd a thymheredd uwch y dŵr) a/neu yn ansicr o gofio nad yw'r dechnoleg a'r mesurau sy'n ofynnol i liniaru effeithiau yn cael eu deall yn dda.

4.3.8 Ar ôl yr ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft a'r ymatebion a ddaeth i law, datblygodd Llywodraeth Cymru nifer o ddewisiadau polisi posibl yn ymwneud â morlynnoedd llanw trwy drafod  â'r Gweithgor Technegol. Roedd y dewisiadau polisi hyn yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd a gafodd ei fireinio i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd. Ystyriodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd y dewisiadau posibl ar gyfer polisi morlynnoedd llanw ynghyd â'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Gweithgor Technegol a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft. O ganlyniad i'r broses hon, dewiswyd y testun polisi 'Canolbwyntio ar Dystiolaeth' fel y dull polisi a ffefrir ar gyfer datblygu amrediad llanw.

4.3.9 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno ag argymhellion Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys sicrhau bod penderfyniadau cynllunio morol yn gyson ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chwblhau rhagor o waith ymchwil er mwyn datrys yr ansicrwydd a nodwyd yn yr arfarniad. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid darparu rhagor o wybodaeth am sut y gellid lliniaru effeithiau amgylcheddol trwy fireinio polisïau ac Arfarniadau o Gynaliadwyedd a thargedau. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwyntiau hyn ymhellach, ar y cyd â'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a fydd yn llywio datblygiad Arfarniadau o Gynaliadwyedd yn y dyfodol, fel y bo'n briodol.

4.3.10 Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen gwneud rhagor o waith monitro, o ystyried heriau cylchoedd adrodd gwahanol, dewis dangosyddion monitro, ymarferoldeb a chadernid gwaith monitro a rolau a chyfrifoldebau. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn null monitro ac adrodd Llywodraeth Cymru, a lle y bo'n briodol, maent wedi'u hystyried yn Adran 6 o'r Datganiad Ôl-fabwysiadu hwn.



## 5. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel y'i cyhoeddwyd, o ystyried y dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae Erthygl 5 (1) o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i nodi, disgrifio a gwerthuso *"the likely significant effects on the environment of implementing the plan or programme, and reasonable alternatives taking into account the objectives and the geographical scope of the plan or programme"*.

5.1.2 Yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol, ac ar ôl ystyried ystod o ddewisiadau amgen posibl eraill a nodwyd trwy ddefnyddio'r hierarchaeth o ddewisiadau amgen sydd wedi'i chynnwys yng nghanllawiau Asesiad Amgylcheddol Strategol[23], y Llywodraeth, nodwyd bod un dewis amgen i'r Cynllun Drafft yn 'rhesymol' ac fe'i cyflwynwyd i'w arfarnu yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, sef 'Cynllun Drafft strategol lefel uchel'. At ddibenion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, tybiwyd y byddai'r 'Cynllun Drafft strategol lefel uchel' yn parhau i ddarparu polisi sy'n benodol i'r sector ond na fyddai'n nodi Ardaloedd Adfywio Strategol. Cyflwynwyd yr arfarniad o'r dewis amgen rhesymol hwn yn Adran 4.10 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, a ddaeth i'r casgliad:

*"The appraisal of the high level strategic Draft WNMP alternative suggests that, overall, the range and type of effects on the SA criteria associated with its implementation would be very similar to those identified in respect of the Draft WNMP as proposed. This reflects the expectation that a high level strategic Draft WNMP would contain the same general cross-cutting policies. However, the appraisal has highlighted that the absence of sector-specific SRAs would, relative to the Draft WNMP as proposed, result in a higher level of uncertainty with regard to the magnitude of effects across the majority of the SA criteria. This alternative would also likely reduce the value and utility of the WNMP as it is more likely to describe (as opposed to manage) sustainable development."*

5.1.3 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft, cafodd yr Ardaloedd Adfywio Strategol eu dileu o'r cynllun, a chyflwynwyd y dewis amgen, sef 'Cynllun Drafft strategol lefel uchel' fel sylfaen i'r Cynllun Drafft Diwygiedig, sydd bellach wedi'i fabwysiadu fel y Cynllun Terfynol. Yn benodol, roedd dileu'r Ardaloedd Adfywio Strategol yn mynd i'r afael â nifer o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys (inter alia):

- amwysedd o safbwynt diffiniad a defnydd Ardaloedd Adfywio Strategol wrth wneud penderfyniadau;
- y gred fod twf economaidd yn cael mwy o flaenoriaeth na chadwraeth bioamrywiaeth;
- yr angen i gynnwys ystyriaeth o gyfleoedd, sensitifrwydd a chyfyngiadau amgylcheddol wrth nodi Ardaloedd Adfywio Strategol;
- diffyg tystiolaeth i gefnogi'r broses o nodi Ardaloedd Adfywio Strategol;
- yr angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth nodi Ardaloedd Adfywio Strategol.

5.1.4 Er bod Ardaloedd Adfywio Strategol wedi'u dileu o'r Cynllun, dylid nodi bod darpariaeth yn parhau ar gyfer nodi Ardaloedd Adfywio Strategol mewn Hysbysiad Cynllunio Morol yn y dyfodol. Ategir hyn gan Bolisi SAF_02 sy'n datgan y canlynol *"Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ragolygon unrhyw sector a gwmpesir gan y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol cynaliadwy yn y dyfodol (o adnoddau a nodwyd gan SRA) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r defnydd potensial hwnnw o adnoddau"*.
Bwriad Ardaloedd Adfywio Strategol fydd diogelu adnoddau strategol sydd â'r potensial i'w defnyddio'n gynaliadwy (er bod y cynllun yn nodi, wrth i waith cynllunio morol aeddfedu ac wrth i'r sylfaen dystiolaeth ddatblygu, y bydd Ardaloedd Adfywio Strategol yn cael eu mireinio ymhellach ac y gallant ddatblygu i gynnig mwy o eglurder a sicrwydd a,

23 ODMP (2005) *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive*. Ar gael o **www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/7657/practicalguidesea.pdf**

lle mae lefel uchel o hyder, gallant nodi ardaloedd i'w defnyddio'n gynaliadwy maes o law). O ganlyniad, mae'r ansicrwydd cynyddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Drafft strategol lefel uchel amgen a nodwyd yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn debygol o leihau dros amser wrth i Ardaloedd Adfywio Strategol gael eu nodi.

5.1.5 Mae Adran 1.3 o Ddatganiad Polisi Morol y DU yn nodi'r disgwyliad y bydd y Datganiad Polisi Morol a'r cynlluniau morol yn gwneud y canlynol *"provide for greater coherence in policy and a forward-looking, proactive and spatial planning approach to the management of the marine area, its resources, and the activities and interactions that take place within it."* Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cyflwyno fframwaith polisi statudol newydd ar gyfer ardal forol Cymru mewn ffordd bwyllog, gan gydnabod arwyddocâd trosglwyddo o'r system bresennol i system a arweinir gan gynllun. Mae rhanddeiliaid wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru i beidio â gwneud gormod yn rhy gyflym, ond bod angen cyflwyno cynllun sy'n ychwanegu gwerth. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, fel y'i mabwysiadwyd, yn gychwyn priodol i broses o lunio dyfodol moroedd Cymru trwy gynllunio morol a sefydlu amcanion a pholisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol penodol, wedi'u llywio gan dystiolaeth ac ymgynghoriad a fydd yn cefnogi datblygu cynaliadwy.



# 6. Y mesurau y penderfynwyd yn eu cylch yn ymwneud â monitro

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Un o ofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yw nodi sut y bydd effeithiau sylweddol gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael eu monitro. Fel y nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth y DU[24], *"it is not necessary to monitor everything or monitor an effect indefinitely. Instead, monitoring needs to be focused on significant sustainability effects"*. Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer mesurau monitro.

## 6.2 Monitro ac Adrodd ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

6.2.1 Gall monitro Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer effeithiau cynaliadwyedd helpu i ateb cwestiynau fel:

- A oedd rhagfynegiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymwneud ag effeithiau cynaliadwyedd yn gywir?
- A yw Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at gyflawni amcanion dymunol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd?
- A yw mesurau lliniaru'n perfformio cystal â'r disgwyl?
- A oes unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl? A yw'r rhain o fewn terfynau derbyniol, neu a yw camau adferol yn ddymunol?

6.2.2 Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr ansicrwydd a nodwyd trwy werthuso polisïau'r cynllun a'r ffaith mai Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cynllun morol cyntaf ar gyfer Cymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai prosesau monitro ganolbwyntio ar y canlynol:

- effeithiau cynaliadwyedd sylweddol a allai arwain at effeithiau andwyol na ellir eu gwrthdroi, gyda'r bwriad o nodi tueddiadau cyn i effeithiau andwyol sylweddol ddigwydd;
- effeithiau sylweddol lle'r oedd ansicrwydd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a lle y gallai gwaith monitro olygu bod modd rhoi mesurau ataliol neu liniarol ar waith;
- lle mae potensial i effeithiau ddigwydd ar dderbynyddion sensitif.

6.2.3 Canfu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fod gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar draws holl feini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae hyn yn adlewyrchu'n fras y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n debygol o ddeillio o gefnogi gweithgarwch economaidd yn yr ardal forol, a'r fframwaith cryf a ddarperir gan bolisïau'r cynllun a fydd yn helpu i warchod a gwella amgylchedd morol Cymru ac yn helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Fodd bynnag, er gwaethaf darpariaethau'r polisïau trawsbynciol cyffredinol, nododd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd effeithiau negyddol sylweddol cronnol mewn perthynas â'r canlynol:

- Tirwedd a morlun (Meini Prawf 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd), oherwydd y cymorth a ddarperir gan Bolisi ELC_01 ar gyfer datblygiadau gwynt ar y môr, sydd â'r potensial i gael effeithiau andwyol ar gymeriad y morlun, er bod ansicrwydd cynhenid wedi'i nodi ynglŷn â graddfa a lleoliad datblygiadau, nodweddion amgylcheddol sylfaenol lleoliadau datblygu, a'r potensial i weithredu camau lliniarol ar lefel prosiect.
- Adnoddau (Meini Prawf 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) sy'n deillio o ennill agregau morol (Polisi AGG_01) a pharhau i gloddio am gronfeydd hydrocarbon (Polisi O G_01a). Hefyd, nodwyd bod Polisi SAF_01 yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar adnoddau (Meini Prawf 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) (er bod effaith gadarnhaol arwyddocaol wedi'i nodi yn erbyn yr un meini prawf). Er bod y polisi yn diogelu adnoddau o fewn ardal y cynllun (gyda manteision cysylltiedig ar gyfer y sectorau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol

24 ODPM (2005) *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive*. Ar gael yn: **www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/7657/lit_10352.pdf**

Cenedlaethol Cymru), mae hyn yn debygol o arwain at ddefnyddio adnoddau na ellir eu hadnewyddu yn y dyfodol (gydag effeithiau amgylcheddol negyddol cysylltiedig).

6.2.4 Mae Erthygl 10 (2) o'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn nodi y gellir defnyddio trefniadau monitro sy'n bodoli eisoes i asesu llwyddiant y cynllun priodol wrth gyflawni ei amcanion lle bo hynny'n briodol; nid yw'n mynnu bod targedau'n cael eu datblygu ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ei hun. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith monitro ac adrodd mewn ymateb i ofynion Adran 61 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir er mwyn asesu effeithiau polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'u heffeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y cynllun. Hefyd, defnyddir hyn i fodloni gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

6.2.5 O ganlyniad, fel rhan o fframwaith monitro integredig ar gyfer y Cynllun, bydd Llywodraeth Cymru yn croesgyfeirio'r asesiad manwl o effeithiau arwyddocaol pob polisi yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd â dangosyddion a nodwyd trwy ystyried amcanion a chanlyniadau polisi. Bydd hyn yn sicrhau, lle y bo'n berthnasol, y bydd gan bob polisi ddangosyddion ar gyfer meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd wedi'u heffeithio'n sylweddol gan y polisi yn ôl yr asesiad.

6.2.6 Bydd Fframwaith Monitro ac Adrodd y Cynllun Morol yn cael ei gyhoeddi maes o law.

6.2.7 Yn unol â gofynion Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd o leiaf bob tair blynedd ar effeithiau polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.



# Atodiad A

## Cydymffurfio â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae **Tabl A.1** yn nodi gofynion Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol y Gweithdrefnau Ôl-fabwysiadu ac yn nodi lle y gellir canfod yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen yn yr adroddiad hwn. Er bod y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn trosi gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol, mewn perthynas ag Erthygl 9 a'r Datganiad Ôl-fabwysiadu, mae'r rheoliadau yn benodol i ofynion y DU, ac felly fe'u defnyddir i ddangos cydymffurfiaeth.

**Tabl A.1: Cydymffurfiaeth yr Adroddiad hwn â Gofynion y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol**

| Gofyniad Rheoliadau AAS | Lleoliad yn y Datganiad Ôl-fabwysiadu (lle y bo'n briodol) |
|---|---|
| **Gwybodaeth am fabwysiadu cynllun neu raglen (rheoliad 16 o'r AAS)** | |
| (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu cynllun neu raglen y cwblhawyd asesiad amgylcheddol ar ei gyfer/ar ei chyfer o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r awdurdod cyfrifol:<br>(a) sicrhau bod copi o'r cynllun neu'r rhaglen a'r adroddiad amgylcheddol cysylltiedig ar gael yn ei brif swyddfa i'w archwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol ac yn ddi-dâl; a<br>(b) chymryd unrhyw gamau sy'n briodol yn ei farn ef i hysbysu'r cyhoedd am<br>(i) deitl y cynllun neu'r rhaglen;<br>(ii) y dyddiad mabwysiadu;<br>(iii) y cyfeiriad (a all gynnwys gwefan) lle y gellir gweld neu gael copi o'r cynllun neu'r rhaglen a'r adroddiad amgylcheddol cysylltiedig, a chopi o ddatganiad sy'n cynnwys y manylion a nodir ym mharagraff (4);<br>(iv) yr amseroedd pan fydd modd gweld y dogfennau; ac<br>(v) y gellir gweld y dogfennau'n ddi-dâl. | Mae copi o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r adroddiadau a'r dogfennau cysylltiedig ar gael yn:<br>**llyw.cymru/cynllunio-morol** – Cymraeg<br>**gov.wales/marine-planning** – Saesneg<br>Mae copi papur o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n rhoi sylw i ofynion yr Adroddiad Amgylcheddol) a'r Datganiad Ôl-fabwysiadu hwn ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn y cyfeiriad isod:<br>Llywodraeth Cymru<br>Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>Conwy<br>LL31 9RZ<br>Mae'r swyddfa ar agor o 9am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. |

| Gofyniad Rheoliadau AAS | Lleoliad yn y Datganiad Ôl-fabwysiadu (lle y bo'n briodol) |
|---|---|
| (2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu cynllun neu raglen:<br>(a) rhaid i'r awdurdod cyfrifol hysbysu:<br>(i) y cyrff ymgynghori;<br>(ii) y personau a oedd, mewn perthynas â'r cynllun neu'r rhaglen, yn ymgynghoreion cyhoeddus at ddibenion rheoliad 13; a<br>(iii) phan nad yw'r awdurdod cyfrifol yn Ysgrifennydd Gwladol, yr Ysgrifennydd Gwladol;<br>a<br>(b) rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r Aelod-wladwriaeth y cynhaliwyd ymgynghoriadau â hi mewn perthynas â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 3. | Mae copi o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r adroddiadau a'r dogfennau cysylltiedig ar gael yn:<br>**llyw.cymru/cynllunio-morol** – Cymraeg<br>**gov.wales/marine-planning** – Saesneg<br>Mae copi o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n rhoi sylw i ofynion yr Adroddiad Amgylcheddol, ar gael yn:<br>**llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-arfarniad-o-gynaliadwyedd**<br>Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus o hyn ar 12 Tachwedd 2019.<br>Mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu hwn yn rhoi sylw i (iii) ac yn cynnwys y manylion a bennir ym mharagraff (4) fel yr amlinellir isod. |
| (3) Y materion yw:<br>(a) bod y cynllun neu'r rhaglen wedi'i fabwysiadu/ei mabwysiadu;<br>(b) y dyddiad mabwysiadu; ac<br>(c) y cyfeiriad (a all gynnwys gwefan) lle mae modd gweld y canlynol:<br>(i) y cynllun neu'r rhaglen, fel y'i mabwysiadwyd,<br>(ii) yr adroddiad amgylcheddol cysylltiedig, a<br>(iii) datganiad sy'n cynnwys y manylion a bennir ym mharagraff (4),<br>neu gael copi ohonynt. | |
| (4) Y manylion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1)(b)(iii) a (3)(c)(iii) yw:<br>(a) sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r cynllun neu'r rhaglen;<br>(b) sut mae'r adroddiad amgylcheddol wedi'i ystyried;<br>(c) sut mae safbwyntiau a fynegir mewn ymateb i:<br>(i) y gwahoddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 13(2)(d);<br>(ii) camau a gymerwyd gan yr awdurdod cyfrifol yn unol â rheoliad 13(4),<br>wedi cael eu hystyried;<br>(d) sut mae canlyniadau unrhyw ymgyngoriadau a gwblhawyd o dan reoliad 14(4) wedi'u hystyried; | Adran 2<br>Adran 3<br>Adran 4 a'r 'Ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth', ar gael yn:<br>**https://llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft?_ga**<br>Ddim yn berthnasol – ni chwblhawyd unrhyw ymgynghoriad trawsffiniol ag Aelod-wladwriaethau eraill yr UE |

| Gofyniad Rheoliadau AAS | Lleoliad yn y Datganiad Ôl-fabwysiadu (lle y bo'n briodol) |
|---|---|
| (e) y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen fel y'i mabwysiadwyd, o ystyried y dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy; ac | Adran 5 |
| (f) y mesurau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen. | Adran 6 |
| **Monitro'r broses o roi cynlluniau a rhaglenni ar waith (rheoliad AAS 17)** | |
| (1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu pob cynllun neu raglen gyda'r diben o nodi effeithiau andwyol nas rhagwelwyd yn gynnar a gallu rhoi camau adferol priodol ar waith. | Nodir y trefniadau monitro yn Adran 6, sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o dan Adran 61 o Ddeddf y Môr a Mynediad Arfordirol. Cyhoeddir Fframwaith Monitro ac Adrodd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru maes o law. |
| (2) Gall trefniadau monitro'r awdurdod cyfrifol gynnwys trefniadau a sefydlwyd ac eithrio at ddiben penodol cydymffurfio â pharagraff (1). | Mae'r trefniadau monitro yn cael eu hystyried trwy Fframwaith Monitro ac Adrodd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law. |